**Adran Tai ac Adfywio**
**Department for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Martina Dunne
Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Eich cyf**:** Your ref: Rhif Cynrychiolydd:
Ein cyf **:** Our ref qA1220251

19 Gorffennaf 2017

Annwyl Ms Dunne,

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Adolygiad 1af Strategaeth Ddewisol – Ymgynghoriad Rheoliad 15: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch i chi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Awdurdurd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Dogfennau cyn adndeuo'r adolygiad 1af. Mae'n hanfodol bod gan yr awdurdod CDLl cyfredol a fydd yn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion allweddol ac yn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr.

Heb amharu ar ddisgresiwn y Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses na'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i leihau'r risg o gyflwyno dogfennau nad ydynt yn gadarn drwy wneud sylwadau priodol cyn gynted â phosibl yn ystod camau paratoi'r dogfennau. Mae Llywodraeth Cymru'n chwilio am dystiolaeth glir bod y profion o gadernid (a nodir yn y 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol') yn cael eu hystyried.

**Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Strategaeth Ddewisol,** sy'n ceisio cyfeirio gwaith datblygu i'r canolfannau mwyaf cynaliadwy wrth gefnogi cymunedau gwledig. Ar ben hynny, rydym yn gyffredinol yn cefnogi lefel y twf arfaethedig yn y cynllun, er y bydd angen i hyn gael ei lywio'n glir gan ystod o opsiynau twf sy'n deillio o'r materion y mae eich Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Wedi ystyried yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan Awdurdurd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**, mae ein prif bryder yn ymwneud â'r broses o ddewis safleoedd ymgeisiol,** y mae'n debyg ei bod yn nodi dyraniadau'r dyfodol yn seiliedig ar eu gallu i gyflwyno cartrefi fforddiadwy yn erbyn targedau tai fforddiadwy heb eu profi. Os yw hyn yn wir, mae angen i'ch Awdurdod gyfiawnhau'r broses o ddewis Safleoedd Ymgeisiol yn gadarn ac esbonio sut y cafodd y dyraniadau arfaethedig eu hasesu yn erbyn meini prawf cynaliadwyedd a hyfywedd cyffredinol, sydd wedi llywio strategaeth y cynlluniau o ganlyniad i hynny. Dylai uniondeb y dull gweithredu hwn a sut y gallai wrthsefyll amgylchiadau newidiol wrth i'r cynllun fynd rhagddo, er enghraifft, newidiadau mewn hyfywedd tai fforddiadwy, fod yn ystyriaeth allweddol er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth dda.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn pennu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol gyda darpariaethau i gyrff cyhoeddus gyfrannu at gyflawni hynny; cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt.

Dylai'r Strategaeth Ddewisol bennu ‘cyfeiriad teithio’ o ran sut y bydd y cynllun yn ceisio gwella a pheidio â lleihau bioamrywiaeth a datblygu cadernid ecosystemau. Ar hyn o bryd, nid yw'r Strategaeth Ddewisol yn adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd yn ddigonol ac nid yw'n cyflwyno ymateb polisi i ddatblygu cadernid ecosystemau. Rydym yn fwy na pharod i gyfarfod a'ch cynorthwyo i ddatblygu polisi priodol ar gyfer y Cynllun Adneuo.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys **pryderon eraill** a nodir yn fanwl yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Gyda'i gilydd, mae ein sylwadau'n tynnu sylw at nifer o faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn ein barn ni, er mwyn ystyried bod y cynllun yn ‘gadarn’. Rydym wedi nodi lle nad yw tystiolaeth o gadernid yn amlwg ar unwaith a lle gellir gwella a/neu atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Ymhlith rhai meysydd allweddol mae'r canlynol:

- Dosbarthiad gofodol
- Opsiynau twf a darpariaeth tai
- Targedau tai fforddiadwy a throthwyon safle
- Tir amaethyddol
- Mwynau
- Ynni adnewyddadwy
- Lletemau glas.

Argymhellwn yn gryf eich bod yn ymdrin â'r materion hyn er mwyn ei gwneud yn debycach y caiff eich CDLl ei ystyried yn ‘gadarn’ ar y cam Adneuo.

Fel bob amser, byddem yn eich annog i gael eich cyngor cyfreithiol eich hun er mwyn sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdurd chi sy'n gyfrifol am y materion hyn.

Os hoffech **gyfarfod yn gynnar** i drafod unrhyw faterion sy'n codi o'n hymateb ffurfiol i'ch Strategaeth Ddewisol, cysylltwch â mi. Dylech ddogfennu eich ymateb i'n sylwadau yn eich Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.

Yn gywir,

**Mr Mark Newey**
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**
**Yr Is-adran Gynllunio**

**Atodiad i Lythyr Llywodraeth Cymru 19 Gorffennaf 2017 mewn ymateb i Adolygiad 1af Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Strategaeth Ddewisol**

**Adroddiad yr Adolygiad**

Yn unol â Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd), nodwn fod yr Awdurdod wedi cynnal adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd ganddo. Mae Adroddiad yr Adolygiad yn **dod i'r casgliad bod angen diwygio'r cynllun yn llawn.**

**Awdurdodau Cyfagos**

Mae'r Parc wedi amlinellu cyfiawnhad manwl yn Adroddiad yr Adolygiad sy'n esbonio pam na fyddai'n briodol gweithredu cynllun ar y cyd â Chyngor Sir Penfro. Mae'r Awdurdod wedi tynnu sylw at faterion amseru, cost a'r angen i ddangos cyflenwad tir tai 5 mlynedd er mwyn esbonio pam y mabwysiedir ei CDLl newydd heb y Cyngor Sir wrth barhau i gydweithio ymhellach ar y sylfaen dystiolaeth. Mae'n bwysig i'r Awdurdod roi tystiolaeth o'r cydweithio hwn (lle y bo'n briodol) ar faterion allweddol er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn.

**Strategaeth Ofodol**

Dylid ystyried pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy wrth benderfynu ar raddfa a lleoliad y twf. Mae hyn yn cynnwys ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a ategir gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol. Dylai'r cynllun adneuo fod yn glir o ran sut y bydd y strategaeth ofodol yn cyflawni amcanion allweddol yr Awdurdod a nodi unrhyw dybiaethau a'r gydberthynas â strategaeth ac amcanion y cynllun.

Yr opsiwn gofodol a ffefrir yw cynnal y strategaeth yn yr CDLl mabwysiedig gyda dwy haen ychwanegol mewn Canolfannau Gwledig (Haen 4) a Chefn Gwlad (Haen 5). Mae strategaeth 'Anheddiad Allweddol â Ffocws' yn seiliedig ar Fframwaith Aneddiadau Hafan Sir Benfro Cynllun Gofodol Cymru ac mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn cyfeirio gwaith datblygu i'r Gwasanaeth a'r Canolfannau Lleol mwyaf cynaliadwy yn Haenau 2 a 3 o'r hierarchaeth, wrth gynnal cymunedau gwledig yn Haenau 4 a 5. **Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ethos y strategaeth hon (yn amodol ar y sylwadau isod) yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodwyd yn y polisi cynllunio cenedlaethol.**

**Canolfannau Gwledig (Haen 4):**
O Dabl 6 (CDLl, tudalen 119) nodwn y cynigir 34% o'r twf yn Haen 4. Mae rôl a swyddogaeth aneddiadau a'r gallu i greu lle ar gyfer datblygiadau tai newydd (LUC, diweddariad mis Mawrth 2017) wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth nodi 33 o Ganolfannau Gwledig Haen 4 newydd yn Nanhyfer, Ystangbwll, Lydstep a Rosebush. Car preifat yw'r unig ffordd o gyrraedd rhai o'r Canolfannau Gwledig (Papur Trafnidiaeth Gynaliadwy) gyda ffurf yr anheddiad yn aml yn fach iawn ac yn gul, er enghraifft ym Mhontfaen a Nanhyfer. Mae'r polisi cenedlaethol yn pennu'r egwyddorion cynaliadwyedd y dylid eu hystyried wrth leoli datblygiad newydd, gan gynnwys bod yn hawdd ei gyrraedd ar droed, ar feic a thrafnidiaeth gyhoeddus (PCC, 4.7). Er mwyn cyflawni amcanion y cynllun, dylai'r cynllun adneuo sicrhau cyfiawnhau'r **holl Ganolfannau Gwledig a nodwyd ar gyfer cynnydd tai a chyflogaeth ym Mholisi 6 yn unol â'r polisi cenedlaethol.** Dylai'r Awdurdod esbonio sut y gellir rheoli datblygiad yn yr aneddiadau hyn. A fydd ffiniau aneddiadau gan yr holl Ganolfannau? Dylai'r Awdurdod esbonio a yw clustnodi ffiniau aneddiadau ar gyfer yr holl Ganolfannau Gwledig yn briodol yn unol â TAN 6 (paragraff 2.2.4).

**Cefn Gwlad (Haen 5):**
Yng nghefn gwlad, mae Polisi 7 yn caniatáu mewnlenwi a thalgrynnu hyd at 2 dŷ marchnad mewn grwpiau ynysig o anheddau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor hyn. Fodd bynnag, dylai'r cynllun adneuo fod yn glir y bydd **angen cyfiawnhad arbennig dros gartrefi**

**newydd yng nghefn gwlad (Haen 5) i ddechrau,** megis tai fforddiadwy er mwyn diwallu angen lleol neu anheddau mentrau gwledig. Er enghraifft, pam mae'r Awdurdod yn caniatáu tai marchnad i ddechrau yn lle chwilio am dai fforddiadwy fel y mae PCC (paragraff 9.3.2) yn awgrymu? Mae hyn yn berthnasol i'r cynllun gan fod cyflwyno tai fforddiadwy'n elfen allweddol o'r strategaeth.

## Opsiynau Cynnydd a Darpariaeth Tai

Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 9.2.2) yn nodi y bydd angen dealltwriaeth glir ar Awdurdodau o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr anghenion o ran tai yn eu hardaloedd dros gyfnod y cynllun. Dylai amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru o aelwydydd a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) fod yn rhan o sylfaen dystiolaeth y cynllun, ynghyd â materion allweddol eraill y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Ar gyfer y Parc, amcanestyniadau aelwydydd sail 2013 Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, yw'r rhai diweddaraf.

Mae'r Strategaeth Ddewisol yn nodi dau opsiwn ar gyfer cynnydd tai; deellir mai Opsiwn 1 yw prif amcanestyniadau aelwydydd sail 2013 Llywodraeth Cymru ac mae Opsiwn 2 yn bolisi sy'n seiliedig ar gynnig tai marchnad er mwyn cymorthdalu darparu tai fforddiadwy. Mae'r **opsiynau a brofwyd er mwyn llywio lefel y cynnydd mewn poblogaeth a thai'n aneglur o ran eu cydberthynas â'r amcanestyniadau ac yn gyfyngedig wrth eu hystyried yn erbyn yr ystod o faterion y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw,** megis gostyngiad yn y boblogaeth, lefelau allfudo a phoblogaeth sy'n heneiddio. Dylai'r cynllun adneuo sicrhau bod ystod o opsiynau wedi'u profi er mwyn llywio lefelau cynnydd yn gadarn yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw yn hytrach na bod yn gyfrifiad mathemategol sy'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol yn unig.

Mae Opsiwn 2 a ffefrir yn barhad polisi yn yr CDLl mabwysiedig ac yn ceisio mynd i'r afael â'r lefel uchel o angen am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol (LHMA, 2014). Bydd Opsiwn 2 yn arwain at ofyn am 940 o anheddau gan ddarparu 1100 o unedau, sef oddeutu 500 o unedau'n llai na'r CDLl mabwysiedig. Mae'r gofyniad tai'n seiliedig ar gyfraddau adeiladu 10 mlynedd blaenorol (2005-2015) gan gyflawni oddeutu 60 o unedau'r flwyddyn (60 o unedau'r flwyddyn x 16 mlynedd [cyfnod y cynllun] = gofyniad o 960 o unedau). Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor hyn, mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod cyfraddau adeiladu'r dyfodol yn debygol o ragori ar y nifer a gwblhawyd yn y gorffennol ac ystyrir bod modd cyflawni 70 o unedau'r flwyddyn mewn egwyddor (CDLl, paragraff 4.268). Byddai'r gyfradd adeiladu uwch hon yn cynyddu'r gofyniad tai oddeutu 160 o unedau i 1,120 o anheddau. Dylai'r Awdurdod **ddangos tystiolaeth glir o lefel y gofyniad tai yn y cynllun adneuo, y mae modd ei gyflawni ond sydd hefyd yn ystyried y materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw, yn enwedig cyflwyno cynifer o dai fforddiadwy â phosibl.**

## Elfennau Tai

### Hyblygrwydd/Lwfans Gostyngiad:

Mae Polisi 44 Tai yn cynnig darparu 1,100 o unedau, sy'n cynnwys lwfans hyblygrwydd o 10% i gyfrif am beidio â chyflwyno safleoedd. Cydbwyswyd hyn yn erbyn sensitifrwydd tirwedd dyrannu tir ychwanegol yn y Parc Cenedlaethol (Papur Cefndir Tai, 2017). Fodd bynnag, mae'r elfen hyblygrwydd yn aneglur ym Mholisi 44, gan y cyfeirir at 'ychwanegu cynlluniau wrth gefn' at y ddarpariaeth? Er ein bod yn cefnogi cynnwys lwfans hyblygrwydd, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am ddangos tystiolaeth o lefel yr hyblygrwydd yn y cynllun. Yn yr un modd, bydd angen i lwfans peidio â chyflwyno 40% yn Ninbych-y-pysgod a 25% i fanc tir gael ei gyfiawnhau'n gadarn, gan gynnwys unrhyw effaith ar y strategaeth a/neu ddosbarthiad gofodol.

## Tai Fforddiadwy

**Angen Tai Fforddiadwy - Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol:**
Un o'r materion allweddol ar gyfer diwygio'r cynllun yw cyflwyno tai fforddiadwy, a oedd yn sylweddol brin o'r targedau yn yr CDLl mabwysiedig. Er bod yr Awdurdod yn cyfeirio at Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) 2014 sy'n nodi bod angen 370 o eiddo'r flwyddyn (a rentir yn gymdeithasol yn bennaf), **ni chynhwyswyd LHMA yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio graddfa a lleoliad y cynnydd** yn y Strategaeth Ddewisol.

Mae Polisi 45 Tai Fforddiadwy yn cyfeirio at darged o oddeutu 250 o gartrefi fforddiadwy, sef oddeutu 22% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol. Nid oes tystiolaeth ategol i ddangos sut y cyrhaeddwyd y ffigur hwn na sut mae'n perthyn i ddarpariaeth y cynllun. Yn yr achos hwn, dylai'r cynllun adneuo wneud y canlynol:

- Esbonio sut mae'r LHMA wedi llywio'r strategaeth ofodol er mwyn cyflwyno cynifer o dai fforddiadwy â phosibl
- Cynnwys arwydd o lefel gyffredinol yr angen am dai fforddiadwy, gan gynnwys unrhyw ôl-groniad.

**Targedau Tai Fforddiadwy:**
Mae asesiad hyfywedd cyffredinol a gyflwynwyd fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth wedi llywio'r targedau tai fforddiadwy yn Nhabl 8 o'r Strategaeth Ddewisol. Mae'r Awdurdod wedi asesu'r Safleoedd Ymgeisiol i'w dyrannu o bosibl yn y cynllun adneuo drwy gymhwyso isafswm trothwy o 5 neu fwy o unedau (yn Ninbych-y-pysgod) sy'n gallu cyflwyno o leiaf 2 gartref fforddiadwy ar y safle (CDLl, paragraff 4.292). Dylai'r Awdurdod egluro a yw'r Safleoedd Ymgeisiol wedi'u hasesu a'u dethol yn erbyn targedau tai fforddiadwy heb eu profi yn yr Asesiad Hyfywedd. Os yw hyn yn wir, byddai gan **Lywodraeth Cymru bryderon sylweddol ynghylch y broses o ddethol safleoedd, yn enwedig os byddai targedau tai fforddiadwy'n newid yn seiliedig ar ddiweddariadau posibl i dystiolaeth yn y cynllun adneuo.** A fyddai hyn yn golygu y gallai safleoedd gwahanol fod wedi'u dewis neu eu heithrio o'r cychwyn cyntaf? Er enghraifft, os byddai'r targed tai fforddiadwy yn cynyddu i 25% yn Arfordir y De-orllewin, gallai safleoedd ymgeisiol ag 8 uned gyflwyno 2 gartref fforddiadwy yn lle 10 uned (ar darged o 20%). I'r gwrthwyneb, os byddai targedau'n disgyn i 15% yn y De-orllewin, a fyddai 7 safle uned a allai gyflwyno 1 uned fforddiadwy yn cael eu heithrio rhag eu dyrannu yn y cynllun? Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn y De-orllewin gan nad oes ‘lle ychwanegol wrth gefn’ uwchben y gwerth tir meincnod yn wahanol i ardaloedd marchnad dai eraill (Astudiaeth Tai Fforddiadwy, Tabl 5.1). **Bydd angen i'r Awdurdurd esbonio a chyfiawnhau'n gadarn ei ddull o ddethol safleoedd ymgeisiol.** Mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod dyraniadau tai yn yr CDLl Adneuo wedi'u hasesu yn erbyn meini prawf cynaliadwyedd a hyfywedd cyffredinol i ddechrau fel na fydd safleoedd addas yn cael eu diystyru na'u cynnwys yn annheg o'r cychwyn cyntaf.

**Trothwy Tai Fforddiadwy:**
Dylai Awdurdodau Cynllunio gynnwys trothwyon safle ar gyfer datblygiadau preswyl y ceisir cyfran o dai fforddiadwy uwchlaw hynny (PCC, paragraff 9.2.17). Bydd y trothwy'n berthnasol i safleoedd a neilltuwyd a hap-safleoedd yn y cynllun y gellir ceisio symiau gohiriedig islaw hynny. Yn ôl y geiriad, nid yw Polisi 45 yn cynnwys trothwy heblaw am darged safle penodol ar gyfer 2 uned fforddiadwy. Dylai wneud. Dylai'r cynllun adneuo egluro'r trothwy safle a'i weithredu a'r hyn mae'n ei olygu o ran cyflwyno tai fforddiadwy ar safleoedd ledled ardal y cynllun.

**Blaenoriaethu Tai Fforddiadwy:**
Mae Polisïau 37 a 43 yn y Strategaeth Ddewisol yn ceisio blaenoriaethu tai fforddiadwy dros lety hunanddarpar newydd a defnyddiau eraill ar hen safleoedd cyflogaeth mewn Canolfannau a lleoliadau cefn gwlad. Mae diben y polisïau'n aneglur o ystyried bod egwyddor datblygiad preswyl yn gyffredinol dderbyniol mewn ffiniau anheddiad. Sut y byddai'r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn ymarferol? Ar y sail hon, a ystyrid bod unrhyw safleoedd yn addas ar gyfer llety hunanddarpar y tu mewn i'r ffiniau anheddiad? Sut mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth twristiaeth yr Awdurdod?

## Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r Papur Cefndir Tai'n nodi y cynhaliwyd Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Sir Benfro gyfan, gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, yn unol â darpariaethau Deddf Tai (Cymru) 2014, ond **ni chynhwyswyd Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn llywio angen a nodwyd neu angen yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun.** Mae'r papur uchod yn nodi bod yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn rhagamcan angen heb ei ddiwallu ledled Sir Benfro ar gyfer 32 o leiniau, ynghyd â 2 iard Siewmyn Teithiol dros 5 mlynedd gyntaf y cynllun (2015-2020). Byddai hyn yn arwain at angen am 101 o leiniau at ei gilydd ledled Sir Benfro hyd at 2031. Gellir grwpio'r angen yn dair ardal ddaearyddol; Hwlffordd, Penfro/Doc Penfro a Chilgeti, sy'n adlewyrchu lleoliad y ddau safle mwy o faint yn y Cyngor Sir. Er ein bod yn nodi bod yr ardaloedd hyn yn bennaf y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, **dylai'r Awdurdod egluro a oes elfen o angen heb ei ddiwallu am lety Sipsiwn a Theithwyr yn y Parc.** Caiff y ddyletswydd i ddiwallu unrhyw angen a asesir ei hamlinellu yn Adran 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r polisi cenedlaethol hefyd yn nodi “lle ceir asesiad o angen sydd heb ei ddiwallu….dylai awdurdodau cynllunio lleol glustnodi digon o safleoedd i sicrhau bod modd diwallu'r gofynion llain dynodedig” (Cylchlythyr 30/2007). Dylai'r Awdurdod sicrhau bod unrhyw angen sydd heb ei ddiwallu yn cael ei nodi drwy ddarparu safleoedd priodol yn y cynllun adneuo.

**Polisi 46 Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr:**
Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnwys Polisi 46 sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd. Fodd bynnag, nid yw Maen Prawf A yn cyd-fynd â Chylchlythyr 30/2007 Llywodraeth Cymru a dylid ystyried ei ddileu o'r cynllun adneuo. Mae Atodiad B i'r Cylchlythyr yn nodi y byddai gofynion polisi i ddangos ‘tystiolaeth o angen’ yn gweithredu yn erbyn rhyddid i Sipsiwn a Theithwyr symud, a fyddai efallai am ddatblygu eu safleoedd eu hunain. Ni fyddai'r fath gyfyngiadau'n cael eu rhoi ar bobl nad ydynt yn Sipsiwn a Theithwyr.

## Cyflogaeth

Mae cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol wedi seilio'n gadarn ar y diwydiant twristiaeth, gyda'r sectorau cyflogaeth mwyaf y tu allan i'r dosbarthiadau defnydd B traddodiadol (Papur Cefndir Cyflogaeth). Yn y Strategaeth Ddewisol (paragraff 4.2.2) mae'r Awdurdod wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw dyraniadau cyflogaeth yn y cynllun mabwysiedig wedi'u datblygu oherwydd pryderon hyfywedd a diffyg diddordeb datblygwyr, gyda'r rhan fwyaf o ymholiadau'n cael eu cyfeirio at y Cyngor Sir yn Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlffordd. Er mwyn osgoi rhwystro tir at ddefnyddiau eraill a bodloni gofynion marchnad arbenigol, **mae Llywodraeth Cymru o blaid yr Awdurdod yn mabwysiadu dull mwy hyblyg drwy bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf** i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth graddfa fach mewn Canolfannau a chefn gwlad.

Yn unol â'r geiriad, mae'r polisïau cyflogaeth yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol yn fras. Yn y cynllun adneuo, dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:

- Cynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i asesu ceisiadau am gyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig;
- Cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i hyrwyddo ac asesu ehangu busnesau sefydledig mewn ardaloedd gwledig
- Ystyried polisi diogelu sy'n nodi ac yn rhestru unrhyw safleoedd cyflogaeth sefydledig i'w cadw at ddibenion cyflogaeth.

## Manwerthu

Mae'r strategaeth ofodol yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y swyddogaethau manwerthu yn Ninbych-y-pysgod, Canolfannau Lleol Trefdraeth, Saundersfoot a Thyddewi a'r Canolfannau Gwledig. Nododd Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol De-orllewin Cymru (Chwefror 2017) fod y farchnad

fanwerthu yng nghanolfannau Haen 2 a 3 yn gryf gyda chyfraddau unedau gwag isel. O ganlyniad, mae'r astudiaeth yn rhagweld bod angen gwagle llawr manwerthu newydd ar gyfer nwyddau cymharol yn y canolfannau hyn. **Dylai'r Awdurdod esbonio sut y bydd yn ymdrin â chanfyddiadau'r astudiaeth.**

**Polisi 49 Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol:**
Mae Polisi 49 yn nodi hierarchaeth fanwerthu'r Parc sy'n gyson â Chynllun Gofodol Cymru a strategaeth ofodol yr CDLl. Er mwyn ychwanegu eglurder, dylai Maen Prawf C 'canolfannau manwerthu llai eraill' gael ei ddiffinio'n glir yn y cynllun adneuo ac ar y map cynigion fel bod y canolfannau yn yr hierarchaeth fanwerthu'n glir i ddefnyddwyr y cynllun, er enghraifft, a yw'n berthnasol i'r holl aneddiadau yn Haen 4 neu Solfach yn unig?

## Cyflwyno a Graddoli

Bydd angen i'r Awdurdod ddangos yn y cynllun adneuo fod yr holl ddyraniadau ac ymrwymiadau'n ariannol hyfyw ac y gellir eu cyflwyno dros gyfnod y cynllun. Nodwn fwriad yr Awdurdod i lunio Astudiaeth Gweithredu Dyraniad Tir (CDLl, paragraff 4.299) er mwyn dangos tystiolaeth o gyflwyno safleoedd, gofynion seilwaith allweddol a chostau cysylltiedig ac adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes er mwyn dangos tystiolaeth o Drafnidiaeth Leol a chynlluniau hirdymor eraill (Papur Trafnidiaeth Gynaliadwy, Tablau 1 a 2). Hefyd, bydd angen i'r astudiaeth gynnwys **arwydd o amseroedd allweddol, graddoli a dulliau ariannu er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r holl ddyraniadau a seilwaith cysylltiedig dros gyfnod y cynllun.**

Mae'r Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad y Twf (Atodiad 2) yn tynnu sylw at nifer o faterion capasiti carthffosiaeth a dŵr yng Nghanolfannau Haen 3 a 4. Bydd angen dangos tystiolaeth glir o gyflwyno dyraniadau yn y Canolfannau hyn, a all olygu bod angen diweddaru'r rhwydwaith. Yn hyn o beth, dylai'r Awdurdod ystyried llunio Datganiad Tir Cyffredin â Dŵr Cymru er mwyn mynd i'r afael â gallu seilwaith dŵr a charthffosiaeth er mwyn cyrraedd y lefel o dwf arfaethedig yn y cynllun.

Mae'n debyg bod y Papur Cefndir Tai (tudalen 22) yn awgrymu y bydd safleoedd tai a defnydd cymysg yn cael eu graddoli dros gyfnod y cynllun er mwyn ystyried gofynion seilwaith ac amsugno gwaith datblygu mewn aneddiadau presennol? Dylai'r Awdurdod egluro'r dull hwn. Mae'r polisi cenedlaethol yn glir y dylai'r gwaith graddoli fod ar ffurf dangosydd eang o amserlenni yn hytrach na therfyn rhifol mympwyol ar ganiatâd neu drefn fanwl ar gyfer rhyddhau safleoedd (PCC, paragraff 2.2.1). **Byddai angen i unrhyw sail resymegol dros reoli graddoli safleoedd o bosibl gael ei chyfiawnhau'n glir,** yn enwedig gan nad yw'r Awdurdod wedi cynnal cyflenwad tir ar gyfer tai pum mlynedd dros y blynyddoedd diwethaf.

Bydd bwriad yr Awdurdod i lunio llwybr tai ar gyfer y cynllun adneuo o gymorth mawr i bob parti ddeall gallu safleoedd i gael eu cyflwyno dros gyfnod y cynllun. Dylai'r llwybr gael ei gefnogi gan ddadansoddiad a dealltwriaeth o amseroedd datblygu ar gyfer safleoedd mwy, y gydberthynas rhwng y fath safleoedd, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion seilwaith a ffrydiau ariannu, ynghyd â thybiaethau cadarn ar hap-safleoedd er mwyn **dangos cyflenwad tir ar gyfer tai pum mlynedd o fabwysiadu'r cynllun.**

## Ardoll Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio

Mae'r Awdurdod yn bwriadu ariannu seilwaith cysylltiedig drwy rwymedigaethau cynllunio a pharhau i adolygu goblygiadau cyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol. Gyda blaenoriaethu tai fforddiadwy mewn cynlluniau preswyl (CDLl, paragraff 4.323), dylai'r cynllun adneuo fod yn glir ar hyn a meysydd blaenoriaeth eraill ym Mholisi 48 fel y gellir ceisio cyfraniadau. Bydd hyn yn llywio darpariaeth seilwaith/dulliau lliniaru ac yn osgoi gweld safleoedd yn mynd yn anhyfyw.

## Twristiaeth

Y strategaeth ymwelwyr ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw denu'r nifer orau o dwristiaid drwy gydol y flwyddyn wrth sicrhau bod y Parc yn parhau'n atyniadol.  Mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni hyn drwy beidio ag ychwanegu'n sylweddol at ddarpariaeth gyffredinol llety ymwelwyr (CDLl, paragraff 4.187). Eto, i'r gwrthwyneb, mae'n nodi galw am westai, tai llety, cabanau gwyliau a meysydd carafanau a gwersylla newydd (CDLl, paragraffau 4.195/4.204).  **Dylai'r Awdurdod egluro ei ymagwedd at yr economi ymwelwyr a dangos tystiolaeth glir o'r galw dros gyfnod y cynllun.**

Mae asesiad gallu o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd presennol i fodloni cynnydd yn y dyfodol ar gyfer meysydd cabanau gwyliau, carafanau a gwersylla wedi nodi cyfleoedd cyfyngedig mewn rhai a'r angen i barhau i gyfyngu mewn eraill (CDLl, paragraff 4.205).  Er mwyn lleoli datblygiad yn y lleoedd mwyaf cynaliadwy, efallai yr hoffai'r Awdurdod nodi Ardaloedd Cymeriad Tirwedd â chyfleoedd cynnydd ym Mholisi 38A, lle y bo'n briodol.  Ymhellach, byddai'n ddefnyddiol i'r cynllun gynnwys polisi seiliedig ar feini prawf ar wahân i gefnogi gwaith adeiladu newydd a chyfleoedd addasu ar gyfer gwestai a thai llety (CDLl, paragraff 4.195).

## Datblygiad Un Blaned

Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Polisi lleol 47 Datblygiad Un Blaned, y mae angen ei ystyried yn erbyn gofynion polisi cynllunio cenedlaethol (PCC, 9.3.11-9.3.12).  Yn unol â'r geiriad, gallai Polisi 47 gael budd o ragor o eglurhad yn y cyfiawnhad rhesymegol, er enghraifft, ym maen prawf c) pa gyfleoedd sydd i ailddefnyddio adeiladau?  A fyddai yn cynnwys anheddau presennol a/neu addasiadau? A fyddai'r gost addasu'n gwneud yr opsiwn hwn yn ‘anymarferol’? Mae'n bwysig bod y polisi hwn yn gallu dangos dulliau gweithredu ac esboniad clir yn y cyfiawnhad rhesymegol.

## Llifogydd

Dylai'r Awdurdod **roi tystiolaeth glir o sut yr ystyriwyd y polisi llifogydd cenedlaethol yn y Strategaeth Ddewisol a'i effaith ar y broses o ddewis safleoedd.**  Mae'n rhaid i'r cynllun adneuo sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, yn bennaf TAN 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd, sy'n nodi'n glir na ddylid caniatáu datblygiad sy'n agored iawn i niwed a gwasanaethau brys ym Mharth C2.  Gallai Polisi 34 Llifogydd a Gorlifo Arfordirol gael ei atgyfnerthu'n ddefnyddiol yn hyn o beth drwy gyfeirio at Fapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru (Maen Prawf A) a ddilëwyd yn unol â llythyr y Prif Swyddog Cynllunio dyddiedig 27 Mawrth 2017.

### Dulliau Rheoli Arfordirol:

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC, paragraff 5.6.3) yn nodi y dylai awdurdodau “nodi'n glir yr hyn y mae'r arfordir yn ei olygu iddynt a datblygu, neu gymhwyso, bolisïau penodol sy’n adlewyrchu nodweddion eu morlinau”.  Nodwn y bydd y map cynigion yn nodi Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol yr ystyrir nad ydynt yn addas i'w datblygu.  Cefnogir hyn gan Bolisi 34A a'r ddau gynllun rheoli traethlin ar gyfer Sir Benfro.  Dylai'r cynllun adneuo sicrhau bod safleoedd sydd wedi'u neilltuo yn briodol yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol, sy'n cydnabod mai anaml iawn mai arfordir sydd heb ei ddatblygu fydd y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygiad (PCC, paragraff 5.7.2).

## Tir Amaethyddol

Mae'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol (Atodiad D) yn gwahaniaethu rhwng graddau tir amaethyddol 1, 2 a 3a.  Mae'r dull hwn yn groes i'r polisi cenedlaethol, sy'n nodi'r tair gradd fel y tir gorau a mwyaf amlbwrpas ac y dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol

(PCC, paragraff 4.10.1). Yn y cynllun adneuo, **dylai'r Awdurdod ddangos tystiolaeth o ddyrannu unrhyw safleoedd ar raddau 1, 2 a 3a tir gorau a mwyaf amlbwrpas a dangos bod unrhyw golled yn cael ei lleihau i'r eithaf a'i chyfiawnhau'n llwyr.** Yn unol â TAN 6 (Atodiad B), rydym yn awgrymu y dylai'r Awdurdod gysylltu ag Is-adran yr Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth am ansawdd tir amaethyddol a lleoliad y tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn y Parc.

**<u>Mwynau</u>**

Mae Polisi Cynllunio Cymru (14.3.2) yn nodi'n glir na ddylid caniatáu datblygiadau mwynau mewn Parciau Cenedlaethol, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, cydnabyddir pwysigrwydd diogelu adnoddau mwynau o hyd yn y Parc Cenedlaethol. Cyfunir y Parc Cenedlaethol â Sir Benfro ar gyfer cynnal banc tir 10 mlynedd ar gyfer cronfeydd creigiau mâl, y mae 14mt ohonynt dros ben, felly nid oes angen rhagor o ddyraniadau. Rhennir y gofyniad ar gyfer banc tywod a graean wedi'i ennill o'r tir dros 7 mlynedd rhwng Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, y mae diffyg o 2.94mt ohono. Er bod y polisi cenedlaethol yn dweud nad yw'n ofynnol i fanciau tir gael eu cynnal mewn Parciau Cenedlaethol, byddai'n fuddiol os **gallai'r Awdurdod egluro a aed i'r afael eisoes â'r diffyg tywod a graean ledled y rhanbarth?** O'r Papur Cefndir Mwynau (paragraff 46) mae'n debyg bod y banc tir wedi'i gynnal yng Ngheredigion. Byddai'n ddefnyddiol os gallai'r awdurdod egluro hyn ac unrhyw oblygiadau i'r Parc.

**Polisi 21 Diogelu Mwynau:**
Yn y cynllun adneuo, dylid diwygio paragraff cyntaf Polisi 21 er mwyn dileu'r cyfeiriad at 'gronfeydd wrth gefn' a disodli hyn ag 'adnoddau' yn unol â'r polisi cenedlaethol. Hefyd, mae angen eglurhad ar yr angen i ddangos 'nad oes dewis addas arall' cyn datblygu, a fyddai fel arall yn diffrwytho adnodd mwyn os byddai'n cael ei ganiatáu.

**Polisi 22 Clustogfeydd:**
Yn unol â'r geiriad presennol, byddai Polisi 22 yn cael budd o eglurder ychwanegol yn y cynllun adneuo. Byddai'n ddefnyddiol i'r polisi gynnwys rhestr o safleoedd gweithredol ac anweithredol yn y Parc a'r mathau o ddatblygiadau a fyddai'n dderbyniol ai peidio yn y glustogfa.

**Polisi 26 Safleoedd Mwynau Anweithredol:**
Yn y cynllun adneuo, byddai Polisi 26 yn cael budd o nodi safleoedd anweithredol a segur, ynghyd â strategaeth i esbonio dulliau adfer yn y dyfodol a chynigion ar gyfer ôl-ddefnydd o'r tir. Dylai'r Awdurdod hefyd nodi lle gellir cyflwyno Gorchmynion Gwahardd yn y dyfodol yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol (PCC, paragraff 14.7.14).

Yn gryno, dylai'r cynllun adneuo wneud y canlynol:

- Nodi'n glir y strategaeth gyffredinol ar gyfer gweithfeydd mwynau dros gyfnod y cynllun, gan adrodd ar y gweithfeydd mwynau presennol yn y Parc Cenedlaethol;
- Diogelu adnoddau mwynol yn unol â'r polisi cenedlaethol a Map Diogelu Cymru Arolwg Daearegol Prydain er mwyn cadw cysondeb ar draws ffiniau ag Awdurdodau cyfagos;
- Cynnwys clustogfeydd o gwmpas gweithfeydd mwynau a ganiateir a rhai arfaethedig, wedi'u cefnogi gan bolisi;
- Ystyried cynnwys polisi gweithfeydd mwynau lleol addas er mwyn sicrhau bod effeithiau amgylcheddol, amwynderau ac iechyd unrhyw geisiadau yn y dyfodol a all gael eu cyflwyno yn ystod oes y cynllun yn cael eu hasesu'n briodol;
- Pennu strategaeth glir ar gyfer safleoedd mwynau segur a rhoi eglurhad ar gyflwyno gorchmynion gwahardd;
- Dangos ardaloedd gweithfeydd glo yn y gorffennol, presennol neu'r dyfodol ar y map cynigion a llunio polisi ategol (fel y nodwyd yn y papur cefndir);

- Annog defnydd darbodus o adnoddau naturiol a hyrwyddo defnyddio agregau ailgylchedig, eilaidd neu ddeunyddiau gwastraff er mwyn lleihau'r adnoddau sylfaenol a echdynnir
- Os yw'n berthnasol, dangos y sail resymegol dros safleoedd cyflogaeth a thai wedi'u neilltuo mewn ardaloedd diogelu mwynau. Dylai'r Awdurdod ddangos y cymhwysir Polisi 21 i safleoedd tai a chyflogaeth mewn ardaloedd diogelu a dangos tystiolaeth yr ystyriwyd echdynnu blaenorol yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol (PCC, paragraff 14.2.1).

**<u>Gwastraff</u>**

Ystyrir bod strategaeth yr CDLl i ddarparu cyfleusterau gwastraff graddfa leol a fyddai'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf yn briodol yn unol â'r polisi cenedlaethol. Mae Polisi 27 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol yn darparu fframwaith y dylid asesu'r fath geisiadau yn ei erbyn.

Dylai'r cynllun adneuo wneud y canlynol:

- Nodi unrhyw safleoedd cyflogaeth sefydledig ac asesu a ydynt yn addas er mwyn bodloni gofynion gwastraff (TAN 21, paragraff 3.21);
- Cynnwys gofyniad ym Mholisi 27 i'r Asesiad Cynllunio Gwastraff gael ei gyflwyno gyda cheisiadau am gyfleuster rheoli gwastraff wedi'i ddosbarthu fel cyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu (TAN 21, paragraff 4.2).

**<u>Ynni Adnewyddadwy</u>**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi tystiolaeth fwyaf diweddar yr Awdurdod, ar ddatblygu asesiad o ynni adnewyddadwy a gwybodaeth darged, sy'n ystyried Llawlyfr i Gynllunwyr Llywodraeth Cymru (2015). Yr Awdurdod fydd yn gyfrifol am adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol, gan esbonio sut y datblygwyd y dull polisi ynni adnewyddadwy'n unol â PCC a'r Llawlyfr sy'n ystyried yr holl faterion perthnasol a, lle y bo'n briodol, wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth lle mae'r llawlyfr yn hwyluso hyn.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai egluro/mireinio yn y meysydd canlynol o fudd i'r sylfaen dystiolaeth a'r dull polisi:

- Dangos **sut mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy wedi'i sefydlu yn y broses safleoedd ymgeisiol** a sut mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy/carbon isel wedi llywio graddfa a lleoliad y twf.
- Mae'r diweddariad i'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn asesu'r cyfleoedd a'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y Parc ac yn dod i gasgliadau ar y cyfraniad posibl y gall pob technoleg adnewyddadwy ei wneud dros gyfnod y cynllun. Dylai'r gwaith hwn gael ei ymgorffori yn yr CDLl a dylai'r fframwaith monitro gynnwys gwneud y cyfraniad hwn.
- **Byddai Polisi 33 yn cael budd o ychydig o ddiwygiad ac eglurhad er mwyn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, y sylfaen dystiolaeth, a sicrhau y bydd y cynllun yn cyflawni'r hyn mae'n ei fwriadu o ran ynni adnewyddadwy.** Yn benodol, mae angen eglurhad ar raddfa'r dechnoleg ynni adnewyddadwy a restrir yn Nhabl 1. Mae'n debyg bod maint microdechnoleg i dechnolegau graddfa fawr yn y Parc yn anghyson â'r polisi cenedlaethol (PCC, ffigur 12.2), sy'n diffinio'n glir raddfa ledled Awdurdod Lleol fel rhwng 5MW a 25MW ar gyfer ynni gwynt ar y tir a rhwng 5MW a 50MW ar gyfer pob technoleg arall. Gall manylion mwy penodol fod yn briodol yn hyn o beth o ystyried amgylchiadau lleol; fodd bynnag, i ddechrau, dylai fod yn glir sut y mae'r trothwyon hyn yn ymwneud â'r rhai yn PCC.

- Nid yw Polisi 33 yn cynnwys trothwyon penodol ar gyfer gwaith datblygu. Dylai wneud, a dylent gyd-fynd â'r polisi cenedlaethol (PCC 12.2) a chasgliadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy.
- Ym Mholisi 33, dylai'r Awdurdod hefyd ystyried a yw technolegau penodol a'u heffeithiau'n cyfiawnhau cyfeiriad penodol, er enghraifft, a yw'r fframwaith polisi ehangach a'r CCA ategol yn ddigonol yn hyn o beth?

**Yr Amgylchedd Naturiol**

Yn unol â'r geiriad presennol, mae Polisi 10 yn darparu meini prawf ar waith datblygu sy'n debygol o effeithio ar ddynodiadau lleol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth. Yn ychwanegol at ddynodiadau lleol, mae'r polisi cynllunio'n ei gwneud yn ofynnol i CDLlau nodi'r holl ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar rhestredig (PCC, paragraff 5.4.5). Er mwyn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, dylai'r cynllun adneuo nodi unrhyw ddynodiadau ym Mholisi 10 (lle y bo'n briodol) a rhoi'r meini prawf y caiff datblygiad ei asesu yn eu herbyn sy'n gymesur â lefel y dynodiad a ystyrir.

**Lletemau Glas:**
Mae'r Awdurdod wedi cymhwyso ei feini prawf hunanasesu lletem las i 94 o safleoedd posibl, sydd wedi lleihau nifer yr ardaloedd arfaethedig i 43 (Adolygiad Lletem Las, Atodiad A). Er bod yr Asesiad wedi ystyried y diogelwch a gynigir gan bolisïau rheoli cynllunio a datblygu arferol (PCC, paragraff 4.8.11), mae gan **Lywodraeth Cymru bryderon am y nifer ormodol o letemau glas a gynigir yn y cynllun adneuo a'u maint. Bydd angen cyfiawnhau pob lletem las yn gadarn.** Sut mae nodi lletemau glas wedi llywio graddfa a lleoliad y twf, yn enwedig mewn aneddiadau mwy cynaliadwy? Pam mae angen lletemau glas yn y lleoliadau hyn? Gweler ein sylwadau blaenorol ar Ganolfannau Haen 4.

**Mannau Agored:**
Diweddarodd yr Awdurdod ei Asesiad Mannau Agored yn 2016, a adolygodd y mannau agored presennol a cheisio nodi unrhyw ddiffygion wrth gymhwyso 'Safon Meincnod' Meysydd Chwarae (CL-02-11). Er na chynhwyswyd yr Asesiad Mannau Agored (2016) yn y sylfaen dystiolaeth, mae'r Papur Cefndir Mannau Agored wedi tynnu sylw at ddiffygion yn y rhan fwyaf o Ganolfannau ledled y Parc Cenedlaethol (Atodiad B). Mae'r polisi cenedlaethol yn nodi y dylai CDLlau gynnwys polisïau ar gyfer darparu, diogelu a gwella mannau agored a gosod safonau fel y gellir nodi diffygion a'u hunioni drwy'r broses gynllunio (PCC, paragraff 11.2.2). Yn y cynllun adneuo, dylid diwygio Polisi 16 yn unol ag unrhyw ofyniad i fannau agored gael eu hystyried mewn tybiaethau cyfraniad asesiad hyfywedd/A106.

**Y Gymraeg**

Bydd Polisi 12 Datblygiad mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg 'fel arfer' yn berthnasol i ardaloedd Cyngor Cymuned a Thref lle mae 30% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Beth yw ystyr 'fel arfer'? Mae'r Awdurdod yn cydnabod lle nad yw cyfartaleddau Cyngor Cymuned yn adlewyrchu presenoldeb crynodiadau y bydd angen mesuriad mwy amodol a sensitif (CDLl, paragraff 4.77). Mae angen eglurhad ar yr ymagwedd hon. A yw ardaloedd Cynghorau Cymuned yn cyd-fynd â'r aneddiadau yn y cynllun? Yn y bôn, dylai fod yn glir o ran lle y bydd Polisi 12 yn berthnasol. Dylai Polisi 12, a'r map cynigion, nodi'n glir ardaloedd ieithyddol sensitif o ran y Gymraeg, gan sicrhau cysondeb ag ardaloedd cynllun cyfagos, lle y bo'n briodol.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

Dylai llunio ac amseru CCA fod yn gysylltiedig â'r fframwaith monitro (lle y bo'n briodol), lle y bydd canllawiau allweddol ar gael yn y cam cynllun adneuo. Dylai'r CCA a fabwysiedir dan y cynllun

presennol gael eu hadolygu neu eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â disodli'r CDLl.

**Monitro**

Dylai'r fframwaith gynnwys targedau priodol ac ysgogwyr allweddol fel y gellir gweithredu cyn yr adolygiad 4 blynedd statudol os nad yw polisïau allweddol sy'n sylfaenol i gyflwyno'r strategaeth yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.  Bydd angen i unrhyw ddiwygiad i'r polisïau mewn cynlluniau mabwysiedig gael ei ystyried yn unol â Rheoliad 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Pan gaiff y cynllun adneuo ei lunio, bydd nifer fawr o CDLlau wedi mynd drwy'r broses archwilio a chael eu mabwysiadu'n llwyddiannus.  Bydd hyn yn rhoi enghreifftiau o arfer da y gall yr Awdurdod fanteisio arnynt er mwyn adeiladu ar effeithiolrwydd y fframwaith arfaethedig ym Mhennod 5.